

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-715
Ein cyf/Our ref KS/06331/16

Mike Hedges AC
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebau

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

29 Medi 2016

Annwyl Mike,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Awst ynghylch y ddeiseb yr ydych wedi'i derbyn oddi wrth Dr Ashley Wood ynghylch cynlluniau i gynnwys gorsaf Mynachdy a Thalybont fel rhan o gynigion Metro De Cymru.

Mae'r cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol yn rhestru 26 o orsafoedd newydd posibl ac yn cynnwys gorsaf newydd bosibl yn Gabalfa. Byddai'r orsaf hon yn gwasanaethu ardal debyg i'r orsaf a gynigir yn y ddeiseb. Mae'r gwaith yma'n mynd rhagddo o hyd.

Mae Metro De Cymru yn cael ei greu mewn modd a fydd yn ei gwneud hi'n bosibl iddo dyfu, gan alluogi mwy a mwy o bobl i fanteisio arno. Prif nod y Metro yw sicrhau gwasanaethau cyflymach a mwy rheolaidd ar rwydwaith estynedig a fydd yn cysylltu cymunedau nad oes ganddynt ddarpariaeth trafndiaeth gyhoeddus dda iawn ar hyn o bryd. Wrth i'r Metro dyfu bydd modd i ardaloedd newydd fanteisio ar y ddarpariaeth.

Rydym wedi amlinellu rhai o'r rhaglenni y credwn y byddant yn cyflawni'r weledigaeth hon. Mae modd eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru:

<http://gov.wales/topics/transport/public/metro/?skip=1&lang=cy>

Yn gywir,

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.